

Cofion

Danfonwn ein cofion heddiw at Elsa Evans (Llanefydd) a Menna Streeter (Henllan) sy'n yr Inffirmari ac at Gwenfyl Williams (Llanefydd) sy'n Ysbyty Glan Clwyd. Hyderwn fod y tair fel ei gilydd yn adnabod nodded a nerth yr Arglwydd, ac yn cael gras i bwyso arno beunydd.

Da yw deall fod John G. Jones (Llansannan) bellach wedi dychwelyd o ysbyty Gobowen yn dilyn ei lawdriniaeth. Ar y llaw arall, deallaf fod triniaeth Nerys Jones (Llansannan) wedi ei ohirio. Yr ydym yn cofio am y ddau yma hefyd yn ein gweddïau, ac am eraill yn yr ofalaeth sydd ddim yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn.

Hyn ag arall

- Mae **Aneurin yn dymuno diolch o galon** i bawb wnaeth gyfrannu at oedfa'r Sul diwethaf. Diolch i'r rhai gymerodd ran, i'r rhai gyfrannodd fwyd, y rhai oedd yn gweini, ac i bawb am ddod i gefnogi. Casglwyd dros £700 i'w rannu rhwng hosbis Durtlang a San Cyndeyrn.
- Yn dilyn sgysiau gyda nifer o drigolion y Fro dros y misoedd diwethaf daeth i'r amlwg bod 'unigedd' a 'darpariaeth o fwyd' yn ddau angen amlwg. Mae cyfle am ginio a sgwrs eisoes ar gael yn y Jangl yn Llansannan bob dydd Iau (Olwen Lloyd 870249) ac yn Llanfair Talhaiarn bob yn ail ddydd Iau (David ac Alwena Edwards 720386). Cysylltwch gyda'r trefnwyr am fwy o wybodaeth ac os am fynd draw! Mae'n fwriad gan y **Grŵp Gwasanaethu** i ddatblygu ar y ddarpariaeth sydd i bob oed, ac mae cysylltiad wedi ei wneud gydag ysgolion y Fro a lleoliadau y gellir eu defnyddio. Beth am ffonio **Gwenan Roberts, Tyddyn Uchaf ar 540217 neu Haf Evans, Tan y Graig ar 582215** i gael sgwrs bellach ac i nodi eich diddordeb. Plis soniwch wrth unrhyw un fyddai'n elwa o bryd o fwyd blasus a sgwrs ddifyr!

I ddod

- Cyfarfod y Gymdeithas Undebol Llanfair Talhaiarn nos Fercher, Rhagfyr 1af yn y Neuadd Goffa am 7.30yh. Cwis dan ofal Gwyn Roberts. Croeso cynnes i bawb.
- Cyngerdd Nadolig (dan olau cannyll) gydag 'Enfys' yng Nghapel Cefn Meiriadog ar nos Sul, Rhagfyr 5ed am 8.00. Mynediad trwy docyn: oedolion £6, plant ysgol £2 - ar gael gan aelodau'r capel neu 07899 951850. Yr elw tuag at Dŷ Robert Owen, Uned y Galon, Ysbyty Broad Green, Lerpwl.
- Myfyrdod Nadolig Cyfarfod y Chwiorydd yng Nghapel Cefn Berain ar nos Lun, Rhagfyr 6ed am 7:00 yng nghwmni Mrs Laura Owen, Trefnant.
- Cynhelir Cymdeithas Capel Cefn Berain ar nos **Wener**, Rhagfyr 3ydd am 7.00 yng nghwmni Cymdeithas Capel Trefnant.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 28^{ain} Tachwedd 2010

Heno!!!

Rhun Murphy fydd yn pregethu yn oedfa'r Fro am 6.00

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Wrth ddod at ein gilydd yn ein heglwysi gwahanol, ac wrth ddod at ein gilydd yn ein hoedfa undebol heno, gweddiwn y cawn brofi daioni a thrugaredd Duw yn cyfarfod â ni yn Iesu, drwy'r Ysbryd Glân. Yn ystod yr wythnos ddiwethaf yr wyf wedi gorfod cychwyn yn brydlon i bob cyfarfod. Nawr, fel y gwyddoch, nid yw hyn yn rhywbeth y byddwch yn ei gysylltu yn arferol â mi - rhyw ddod ar y funud olaf yw fy hanes fel arfer. Tebyg fy mod wedi dysgu arferion drwg wrth fynd i Brynrhydyarian yn ystod y blynyddoedd cynnar. Mi fyddai pawb yn eistedd yn daclus yn y Capel am 2.00 o'r gloch, ond byddai'r blaenoriaid yn sgwrsio'n braf y tu allan am ddeg munud llawn yn aml. D'oedd amser ddim mor dyngedfennol â hynny!!! Beth bynnag, pam y prydlondeb yma? Wel - goleuadau traffig ar sgwâr prysur Llansannan. Fe gyrhaeddodd y pantomeim yn gynnar, a daeth yr arwyddion uniaith Saesneg (rhai newidiwyd yn ddiweddarach), peiriant cloddio sylweddol i barcio ar ganol y sgwâr, a ffens i ddiogelu'r peiriant. D'oedd dim golwg o ddim yn digwydd am ddiwrnodau, mwy na bod y peiriant wedi parcio, a'r goleuadau. Allan o ddiddordeb, o ystyried y ffordd mae amryw yn parcio ar y sgwâr fel arfer, d'oedd fawr o achos i feddwl fod llawer wedi newid, mwy na bod y goleuadau wedi cyrraedd. Beth bynnag, gwnaed twll mewn diwrnod, caewyd y twll y diwrnod canlynol, a bellach, mae'r syrcais wedi symud yn ei blaen. Dwi'n amau fod presenoldeb y goleuadau wedi bod yn ffactor ymylol i amryw o gerbydau Llansannan, a thebyg fod hynny yn beth perffaith ddiogel, gan nad oes 'oriau brig' ar y sgwâr. Sylwais ar amryw yn mynd yn eu blaenau, yn enwedig ar fin nos, beth bynnag oedd lliw'r golau!! Cofiwch, dwi'n meddwl fod y bobl yma'n llawer iawn mwy darbodus wrth y goleuadau traffig yn Abergele, neu ar waelod tref Dinbych. Dyma beth mae athronwyr yn ei alw yn 'foeseg sefyllfa', hynny yw, yr ydych yn penderfynu ar ymddygiad yng ngoleuni eich deall o'r sefyllfa.

Mi fydd pobl yn gwneud hynny mewn amryw byd o gyfeiriadau. Oes rhywun ohonoch wedi dweud tybed - 'mae'n iawn i beidio dweud y gwir i gyd yn y sefyllfa yma'? Fydech chi ddim yn meddwl dweud celwydd fel arfer ond... Felly hefyd gyda golwg ar arian. Fe glywch bobl yn dweud rhywbeth fel 'mae gan y llywodraeth ddigon o arian' wrth lenwi'r ffurflen dreth!! Fyddai'r bobl hyn ddim byth yn ystyried hynny fel dwyn! Ac yna mae holl faes moesoldeb personol a moesoldeb rhyw. Oherwydd bod cymdeithas yn derbyn safon llai na'r hyn mae'r Beibl yn ei ddysgu, cewch ymadrodd fel 'fel hyn mae pawb arall yn ymddwyn bellach'.

A beth am y Beibl? Oes y fath beth a 'moesoldeb sefyllfa' yn hwnnw? Oes yna sefyllfaoedd lle mae'r Beibl yn caniatáu i ni fod yn esgeulus o'n hymddygiad, ein moesau, ein gweithredoedd? I'r gwrthwyneb yn hollol. Ceir enghraifft ar ôl enghraifft o bobl fel Daniel â'i ffrindiau, pobl oedd yn gwrthod cydymffurfio a chefnu ar yr Arglwydd. Mae pobl Iesu i fod yn bobl gyson eu cerddeddiad, beth bynnag fo'r sefyllfa.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan **am 6.00 (sylwch ar yr amser). Arweinir yr oedfa gan Steffan, bydd Rhun Murphy yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.**
- Llun **Grŵp genod blynyddoedd 7-11** yn y Granar yn Llansannan am 4.30. Grwpiau **Adnabod** Aneurin ac Elen yn cyfarfod am 8.00
- Mawrth **Crefftau 'Dolig i'r Genod** yn Nhan y Graig, Cefn Meiriadog am 7:30
- Mercher **Adnabod beth yw Cristnogaeth go iawn** yn y Granar am 8.00
- Iau **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15. **Astudiaeth Feiblaidd** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30
- Gwener **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Heulfryn, Llansannan am 9.30 y bore.
- Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan **am 6.00**. Arweinir yr oedfa gan Ben, bydd Meirion yn pregethu a bydd paned i bawb **yn dilyn yr oedfa**.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Mr Gron Ellis yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 2.00 a'r Parch John Barnett yn arwain oedfa yng Nghapel Hyfrydle am 3.15. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Hywel Edwards yn arwain yr oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain oedfa Sul y Beibl yn Llansannan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Mr Arwel Roberts yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 10.00. Bydd Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Mr Aled Lewis Evans yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Gwneir casgliad arbennig yn ystod oedfaon y dydd yn Llanefydd tuag at Hosbis San Cyndeyrn.
- Sul nesaf Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a Chyfarfod Gweddi am 2.00, ac Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i
Meirion - ✉ meirion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870601 📞 07554 005423
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau